

Cylchlythyr

Seicoleg a Chwnsela

Rhagfyr
2022



I gloi semester cyntaf blwyddyn academiaidd 2022-23, rydym wedi penderfynu neilltuo'r cylchlythyr hwn i'n myfyrwyr, a chanolbwyntio arnyn nhw. Trwy gydol y cyfnod hwn byddwch yn dod o hyd i wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r hyn y mae ein myfyrwyr wedi bod yn ei wneud hyd yma eleni, a hefyd Gair i Gall gan rai o'n myfyrwyr israddedig yn y drydedd flwyddyn! I bob un ohonoch - un semester i lawr ac un i fynd! Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda.

Myfyrwyr BSc Seicoleg yn helpu gyda phrosiect ymchwil mawr



Yn rhan o'u hastudiaethau ar raglen BSc Seicoleg, mae myfyrwyr ail flwyddyn sy'n cymryd rhan yn y modwl Ymchwil ar Waith yn helpu i ddylunio a chynnal astudiaethau ymchwil sydd â'r nod o archwilio materion cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae'r cyfle unigryw hwn yn caniatáu i'r myfyrwyr hyn redeg eu prosiectau ymchwil eu hunain sy'n archwilio sut mae disgwyl i ddynion a menywod ymddwyn, a beth yw'r canfyddiadau o ddyn neu ddynes 'go iawn' yn y gymdeithas sydd ohoni.

"[Byddan nhw'n] cynnal ymchwil i archwilio'r materion hyn ymhellach, a gobeithio y byddwn yn cynhyrchu rhywbeth y gallwn ni ei gyflwyno mewn cynhadledd neu bapur ymchwil ar ddiwedd y modwl. Byddai'n wych i'r myfyrwyr allu arddangos eu gwaith caled." Dr Katie Sullivan.

MA Ymarfer Seicotherapiwtig: Dyddiadau Pwysig Sadwrn Syfrdanol!

Dydd Sadwrn 4 Chwefror:
Myfyrwyr MA i gyflwyno i'w cyfoedion

Dydd Sadwrn 4 Mawrth:
Myfyrwyr PhD a myfyrwyr MA blaenorol i gyflwyno i fyfyrwyr MA presennol

Dydd Sadwrn 25 Mawrth:
Digwyddiad Ymarfer Proffesiynol

Y Gymdeithas Seicoleg



Mae'r Gymdeithas Seicoleg wedi ei hadfywio! Mae'r Gymdeithas Seicoleg yn gymdeithas ddisgyblaeth eang i unrhyw fyfyrwr sy'n astudio rhaglen sy'n gysylltiedig â Seicoleg neu Gwnsela i fod yn rhan ohoni, yn ogystal ag unrhyw aelod o'r brifysgol sydd â diddordeb yn y pynciau ac sydd eisiau dysgu rhagor.

"Dechreuwch aseiniadau mewn da bryd a cheisio gosod nodau bach i chi'ch hun sy'n gysylltiedig â'r aseiniad i'w cyflawni bob dydd a fydd yn caniatáu rhagor o amser rhydd a llai o straen i chi."

Lloyd, myfyriwr israddedig yn y flwyddyn olaf: BSc Seicoleg

Gair i Gall !

BSc Seicoleg a Throseddeg
Rhaglen newydd yn dechrau
Medi 2023*

** yn amodol ar ddilysiad*

Cylchlythyr

Seicoleg a Chwnsela

Rhagfyr
2022



I gloi'r semester, bydd yr holl dîm Seicoleg a Chwnsela yn gwisgo ein siwmpwr Nadolig ar eich diwrnodau addysgu olaf. Byddai'n wych pe baech chi'n ymuno â ni ac yn dechrau'r dathliadau cyn i ni adael ar wyliau'r Nadolig – mae siwmpwr, crys-t, clustiau ceirw neu unrhyw beth llachar yn fwy na derbynio!

BSc Seicoleg Gymhwysol: dydd Mercher 14 a dydd Iau 15 Rhagfyr

BSc Seicoleg/BSc Seicoleg a Chwnsela: dydd Iau 15 a dydd Gwener 16 Rhagfyr

BSc Iechyd Meddwl: Sadwrn 17 Rhagfyr

Gair i Gall !

"Mae wedi bod o fudd i mi gymryd yr amser i ddarllen dros fy ngwaith yn ofalus ac allan yn uchel i chwilio am wallau gramadegol. Mae darllen yn uchel fel pe bai'n araith yn fy helpu i nodi a yw brawddeg yn rhy hir neu ddim yn gwneud llawer o synnwyr."

Laura, myfyrwraig israddedig blwyddyn olaf: BSc Iechyd Meddwl

Myfyriwr BSc Seicoleg yn yr ail flwyddyn yn sicrhau grant Cynorthwydd Ymchwil Israddedig (URAS)

Am ei leoliad profiad gwaith ail flwyddyn, gweithiodd Shaw Golding yn agos gydag aelodau'r tîm Seicoleg ar gampws IQ SA1 ar brosiect Limb-art ac ymestyn ei waith ymhellach trwy gyrhaeddiad grant URAS. Mae hwn yn gyflawniad gwych, a gyda'r cyllid hwn, llwyddodd Shaw i gymryd rhan mewn swydd ymchwil 8 wythnos dros haf 2022 a ganiataodd iddo weithio ymhellach ar brosiect Limb-art. Roedd ei brosiect empirig israddedig blwyddyn olaf hefyd yn seiliedig ar hyn. Mae Shaw wedi crynhoi ei brofiad yn un "hynod fuddiol [iddo] yn academiaidd ac yn bersonol".

Trwy gydol fy ail flwyddyn, ac yn ystod fy lleoliad gwaith ac ymgysylltu mewn ymchwil dros yr haf diolch i gyllid URAS, rwyf wedi dysgu bod ymchwil yn cynnwys y broses o weithio drwy lawer o amherffeithrwydd cyn y gellir casglu unrhyw fath o ddata. Rwy'n credu fod fy ngwaith dros yr haf wedi gwella'n sylweddol fy ngwybodaeth am astudiaethau pellach ac yn benodol, am fy nhraethawd blwyddyn olaf. Dysgais i elfen gynnil o amynedd: amynedd gydag amrywiaeth o wahanol offer technolegol sydd wedi'u cynllunio i helpu gydag ymchwil, ond hefyd amynedd gyda mi fy hun. Ar y cyfan, mae hwn wedi bod yn brofiad ymdrochol, a phleserus sydd wedi adeiladu fy nghymeriad ar hyd y ffordd, rhywbeth y byddaf yn bwrw ymlaen ag e yn fy mywyd.



@UWTSDPsych



@teampsyco_uwtsd



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Dolen gwefan y Brifysgol

Cylchlythyr

Seicoleg a Chwnsela

Rhagfyr
2022



Cynrychiolydd Llais Myfyrwyr yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau

"Yn Gynrychiolydd Llais Myfyrwyr yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau, rwy'n gweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr cyrsiau yn yr Athrofa i gasglu adborth myfyrwyr ar eu profiad. Yna rwy'n mynd i gyfarfodydd yr Athrofa lle rwy'n gallu gweithredu'n llais i fyfyrwyr y gyfadrannau a chodi unrhyw bryderon gyda chadeirydd y pwyllgor a swyddogion yr UM i ddatblygu cynllun i sicrhau newid cadarnhaol. Roedd fy nghyfarfod cyntaf eleni yn frawychus ond roedd yn wych cael gwell dealltwriaeth o sut mae'r sefydliad yn cael ei redeg a pha mor bwysig yw tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn yr Athrofa, ac edrychaf ymlaen at gymryd rhan yn y broses ymhellach dros y semester nesaf. Rwyf hefyd yn Llysgennad Myfyrwyr cyflogedig i'r brifysgol, ac rwy'n darparu cymorth mewn Digwyddiadau Croeso a Diwrnodau Agored. Rwyf wedi cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau allgymorth yn yr ysgol ac mewn ffeiriau UCAS/gyrfaoedd. Mae'r rôl hon yn rhoi boddhad i mi ac mae wedi fy ngalluogi i ddysgu sgiliau newydd drwy ymgysylltu â'r cyhoedd a thrwy fod yn llysgennad sy'n cynrychioli'r brifysgol."



Katie Wagstaffe, Lefel
Pump BSc Seicoleg a
Chwnsela

Wythnos Cyflogadwyedd - Ionawr 2023 (Abertawe - S/SaCh/IM)

Dydd Llun 23 a dydd Mawrth 24
Ionawr: Dyddiau Ymchwil

Dydd Mercher 25 a dydd Iau 26:
Gyrfaedd a Chyflogadwyedd

Iau 26 = Prynawn cymdeithasol / nos

Amserlen lawn i'w dosbarthu trwy Moodle yn y
Flwyddyn Newydd



Help a Chymorth Nadolig



Yn gysylltiedig yma ar wefan [Swansea Gov](https://www.swansea.gov.uk) mae lleoliadau, amseroedd agor a gwybodaeth am sut i gael mynediad at fanciau bwyd yn Abertawe. Mae gwybodaeth hefyd i bobl sy'n dymuno gwneud cyfraniad i fanc bwyd.

I'r rhai sydd mewn sefyllfa i roi, mae apêl Mr X yn rhedeg eto eleni a gellir codi tagiau o'r Goeden Nadolig yng nghanolfan Cwadrant Abertawe.

"Fy nghyngor i fyddai codi llais yn y dosbarth! Os bydd eisiau holi am rywbeth arnoch chi, mae'n debyg y bydd eraill am gael yr un wybodaeth. A pheidiwch ag ofni trafodaethau yn eich darlithoedd - mae eich darlithwyr yn brofiadol mewn mwy na'r modwl y maen nhw'n ei addysgu ar y pryd ac mae'n syndod beth gallwch chi ei ddysgu o ddim ond sgwrsio â nhw!"

Lowri, myfyrwraig israddedig blwyddyn olaf: BSc Seicoleg a Chwnsela

Gair i Gall !